Gwasanaethu Plant yn y Dyfodol Digidol

Enw Ceren Lloyd

Cwmni/Corff Ysgol Gynradd

Cwestiynau

1. A ydych yn cytuno â'n barn y bydd gwasanaeth i Blant yn gwella'r gwasanaeth cyhoeddus a gynigir yn y Gymraeg i Blant?

Ydw

2. A ydych yn credu y byddai darparwr trydydd parti yn fodlon darparu gwasanaeth teledu Cymraeg i Blant o natur debyg i'r un a amlinellwyd uchod, ar sail masnachol?

Nac ydw

3. A allwch chi feddwl am randdalwyr allweddol nas cynhwyswyd yn Atodiad A?

Nac ydw

4. A oes gennych unrhyw sylwadau / beth yw'ch safbwyntiau am yr oriau darlledu a gynigir a'n cynulleidfaoedd targed?

Cytuno bod angen y dewis. Mae angen meddwl am y gwahanol oedrannau a'u anghenion. Mae'n holl bwysig bod y dewis ar gael yn ystod oriau 'ar ôl ysgol' a bod y dewis yn gallu cystadlu hefo sianeli eraill poblogaidd. Mae rhoi dewis o raglenni am gyfnod hir bob diwrnod yn hanfodol ar gyfer datblygiad iaith plant Cymru- nifer fawr yn dibynnu ar hyn i glywed Cymraeg y tu allan i'r ysgol. Plant cyn oed meithrin hefyd yn haeddu mwy o gynnyrch safonol am fwy o gyfnodau- rhain sydd yn gwylio cbeebies a ddim yn dod nol i wylio'r sianel! cartwns Noddy, ffi ffi, Falmai'r Fuwch yn hynod boblogaidd- ac angen llawer mwy.

5. Yn eich barn chi, beth fyddai'r nodweddion allweddol pwysicaf ar gyfer gwasanaethau teledu i Blant a ddarparir gan S4C?

Rhaid cynnig dewis eang o safon uchel. Dewis yn ystod oriau addas i'r oedrannau, cyfresi drama er mwyn cael y plant i ddod yn ôl yn gyson at y sianel. Rhaid cynnig arlwy gwahanol- mae pob plentyn yn wahanol! Dewis bechgyn a merched yn wahanol iawn. Rhaid i safon y iaith a ddefnyddir fod yn uchel.

6. A oes gennych unrhyw sylwadau am yr opsiynau a nodwyd ym mharagraff 4 ac yn arbennig, y dewis rhwng opsiwn 1 a 2? A oes gennych unrhyw sylwadau eraill yr hoffech i ni eu hystyried am y mater hwn?

Dim sylw

7. A oes gennych unrhyw sylwadau eraill yr hoffech i ni eu hystyried o ran yr Ymgynghoriad hwn ynghylch sianel deledu Gymraeg newydd i Blant?

Rwyf yn gefnogol iawn i'r syniad gan obeithio y bydd yn digwydd yn fuan.